AGORA

Rhif 2 Mai 2016

Cylchgrawn Misol
Cristnogaeth 21

AGORA Mis Mai 2016

Medrwch argraffu'r fersiwn hon o'r cylchgrawn *Agora*, neu ei ddarllen ar y sgrin yn ei ffurf bresennol fel pdf, yn union fel pebai'n gopi print, neu medrwch ddewis ei ddarllen yn ddigidol o fewn eich porwr, gan sgrolio i lawr i weld pob erthygl yn unigol a rhyngweithiol:

Cynnwys Rhifyn 2 (Mis Mai)

3. Golygyddol
4. Cofio Gwyn Thomas — *Meg Elis*
5. 'Cael profiad' a 'Gwybod am' — *Eric Hall*
6. Holi tipyn ar awdur — *Dyfed Edwards*
7. Dyfyniad o *Iddew*
8. Sut aeth yr encil? / Amgyffred Waldo
9. Canllaw i Weddïo
10. Ydwyf yr hyn ydwyf — *Enid Morgan*
11. Y llun ar frig y wefan
12. Ydwyf gan James Alison
13. Adolygu *Ar Drywydd Dewi Sant* — *Ann Parry Owen*
14. Rownd y Gwefannau
15. Cadw a Newid
16. Digyfaddawd Heriau'r Esgob Spong — *Arwel Rocet Jones*
17. Manylion y Gynhadledd Flynyddol
18. Hunaniaeth Ewropeaidd?
19. Cerdd: Ble bynnag y mae cariad — *Arwel Rocet Jones*
20. Darlith Morlan-Pantyfedwen

http://cristnogaeth21.cymru

Golygyddol

'What do you think of all this immigration then?' gofynnodd y lletywraig Gymreig yn Sir Fflint i mi ryw flwyddyn yn ôl). Teimlwn fy 'ngwrychyn yn codi wrth ateb, 'We've been coping with immigration in Wales for many years.' Edrychodd yn reit syn tuag ata i wrth sylweddoli nad oedd y ddwy ohonom yn sefyll ar yr un tir. Profiad anghysurus y dyddiau hyn ydi gwrando ar y Saeson hynny sy'n dadlau yn erbyn caniatáu i estroniaid ddod i mewn a newid natur cymunedau Seisnig. Ac os oes yna linyn sbeitlyd ynom, mae 'na demtasiwn i wenu'n gam wrth weld ein cymdogion hyderus yn diodde'r un ofn â ninnau. Mae newid yn aml yn boenus.

Ac mae'n codi ngwrychyn i (ydi, digon hawdd ei godi, mae arna i ofn!) pan fydd gwleidyddion yn crybwyll y *Kindertransport* fel enghraifft o groeso Seisnig. Ymateb unigolion tanbaid oedd y *Kindertransport* i'r ffaith fod y llywodraeth yn gwrthod croesawu oedolion Iddewig oedd yn ceisio ffoi rhag amcanion llofruddiol Hitler. Gwn am ŵr fu'n warant ariannol i nifer o Iddewon ddaeth i Brydain yn y tridegau. Roedd un ohonyn nhw'n gorfod mynd i gofrestru yn swyddfa leol yr heddlu bob dydd – a'r rheini, chwarae teg iddyn nhw, yn swil o embaras o'i gweld dro ar ôl dro, a hithau'n fygythiad i neb.

Nid yr un peth yw'r 'mewnlifiad' i Gymry ag yw 'immigration' i Saeson, ar waethaf y tebygrwydd arwynebol. Nid tlodion digartref mewn unrhyw berygl oedd yn prynu ail dai yng Nghymru. Yr oedd, ac y mae, llawer o fewnfudwyr sy'n dod i fyw'n barhaol mewn pentrefi Cymraeg yn dod â digon o arian ac egni i ailadeiladu tai sydd ar fin dadfeilio. Mae rhai'n dymuno bod yn rhan o'r gymdeithas leol ond yn gorfod sylweddoli bod perthyn yn golygu gwaith caled, a thipyn o wyleidd-dra.

A doedd neb wedi llefaru'n fwy eglur yn erbyn peryglon y mewnlifiad na Merêd. Tybiwyd gan rai nad oedd yn ei adnabod, ond a glywodd am ei anerchiad fel Llywydd yn Eisteddfod Abergwaun, ei fod yn eithafwr hiliol. Ond er ei wrthwynebiad i her economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y mewnlifiad, yr oedd Merêd ar lefel bersonol yn rhoi croeso i bawb.

Ar ddiwrnod llym-awel ei angladd yng Nghwmystwyth yr oedd y ffyrdd yng ngogledd Ceredigion i gyd yn arwain i gapel Cwmystwyth. Rhoddais innau bàs i wraig reit anghenus ei golwg; ie, mynd i angladd Merêd yr oedd hi. 'Lovely man,' meddai hi. 'I know I won't understand anything much, but I've got to come to say goodbye.' Mewnfudwraig (heb lwyddo i ddysgu fawr ddim Cymraeg) oedd wedi syrthio dan gyfaredd y gŵr oedd yn rhoi nid yn unig groeso personol iddi hi, ond croeso i'r diwylliant Cristnogol Cymraeg yr oedd ef yn ei amddiffyn a'i feithrin gyda'r fath arddeliad. Roedd ganddo ddiddordeb croesawus, cariadus, gwerthfawrogol o bawb, hyd yn oed y mewnfudwyr – efallai'n arbennig y mewnfudwyr! Roedd yna nifer sylweddol ohonyn nhw yn yr angladd – roedden nhw'n meddwl y byd ohono.

Meredydd Evans

Roedd yna nifer sylweddol ohonyn nhw yn yr angladd – roedden nhw'n meddwl y byd ohono.
Roedd Merêd yn hyderus gyfleu i ddieithriaid y cynhesrwydd agored sydd weithiau'n nodweddu ein byd bach Cymraeg ni. Rydyn ni'n gallu bod yn gul, yn amheus ac yn ochelgar o bobl 'wahanol' – yn union fel ein cymdogion Seisnig. Roedd e'n dangos i ni ein bod yn gymdeithas werth gwneud ymdrech i berthyn iddi. Roedd yn amddiffyn heb fod yn amddiffynnol. Gwers i ni i gyd: gwers i ni, Gymry, gwers i Saeson ac i Ewrop gyfan wrth i ni dalu'r pris am ormes a chelwydd ymerodraethau sydd wedi edwino.

Yn y cyd-destun yma mae stori Iesu'n iacháu 'gwas y canwriad'yn werth talu sylw iddi. (Roedd yn hysbys bod 'gwas canwriad' yn aml yn wrthrych serch rhywiol swyddogion y fyddin Rufeinig orthrymus.)

Nid yw Iesu'n gosod unrhyw amod, na deddfol grefyddol na chenedlaethol, ar ffordd haelioni a thrugaredd.

Ymateb trugarog yw ymateb Iesu i bopeth ac eithrio rhagrith hunangyfiawn. Dynwared yr haelioni penagored hwnnw yw'r alwedigaeth anodd i ni i gyd.

Brian McLaren yng Nghaerdydd

Cyfeirir yn aml at Brian McLaren fel un o arweinwyr Cristnogol mwyaf dylanwadol y Gorllewin. Bydd yn ymweld â Chaerdydd ar Hydref 10fed eleni, pan fydd yn annerch yn yr Eglwys Ddiwygiedig i sôn am ei lyfr newydd:
''The Great Spiritual Migration: Re-imagining a Faith that will Save Us'

Trychiad, Tylluan a Nadolig Durham
Gwyn Thomas: Bardd, Athro, Diacon
gan Meg Elis

Gwyn Thomas
1936—2016

Darluniodd y darlithydd gysyniad llenyddol y 'trychiad' i'w ddosbarth trwy gyfeirio at un o erchylleiriau Williams Pantycelyn – "Constant-fawr-inople". Ond er mwyn tynnu sylw at y ffaith fod y ffurf yn dal yn gynhyrchiol, fe gyfeiriodd hefyd at ebychiad gyrrwr bws yn y Blaenau pan gamodd cerddwraig ddiofal allan i'r lôn o'i flaen – "Ddaru hi ddim hesi-blydi-tetio".

A dyna Gwyn Tom. Yn medru esbonio dyfais lenyddol o ddyddiau Dafydd ap Gwilym drwodd at yr hen Bant, ond gan gysylltu hefyd ag ieithwedd ei bobl ei hun. Naturiol i mi, felly, mewn gwasanaeth Nadolig pan oeddwn i yn y coleg – 1970, faswn i'n tybio, gan i mi dderbyn copi o *Ysgyrion Gwaed* yn anrheg y Nadolig cynt – oedd darllen ei gerdd 'Nadolig 1966.' Cerdd ydi hi sy'n cyfeirio at eitem newyddion, pan wrthodwyd caniatâd i osod siop wag yn ddi-dreth i elusen er mwyn codi arian at anffodusion y byd. Mae'n cyfuno *vox pops,* adnodau o'r Beibl, ac ieithwedd arbennig y bardd ei hun:

O Fair fam,
A ddaw'r geni,
A ddaw'r goleuni,
A ddaw'r Nadolig i Ddurham?



Yng ngwaith Gwyn Thomas, mae'r goleuni yn dod, yn llathru drwodd. Roedd y *Weledigaeth Haearn* a *Chwerwder yn y Ffynhonnau* wedi'u hychwanegu at *Ysgyrion Gwaed* tra oeddwn i'n dal yn y coleg, ar yr un pryd ag yr oeddwn yn mynychu ei ddarlithoedd ar yr Hengerdd, ar Dafydd ap Gwilym, ac yn fy mlwyddyn gradd yn dewis ei gwrs ar Ddychan. Yr ysgafnder, wedi'i asio mor berffaith gyda'r ysgolheictod sicr – ac yn waelod i'r cyfan, dynoliaeth, trugaredd, graslonrwydd.

Dyna barodd i mi brynu record hir ohono yn darllen ac yn esbonio ei waith ei hun. Mae'r record wedi mynd ar goll, ond mae ei lais o'n fyw yn fy nghof y funud hon, yn esbonio sut ei fod o'n teimlo cymhelliad awdur Llyfr y Diarhebion: "Agor dy enau dros y mud, yn achos holl blant dinistr."

Plant. Cofio fel y daeth *Enw'r Gair* yn nechrau'r saithdegau yn dipyn o sioc i'r rhai oedd wedi ymhyfrydu yng ngerwinder ei dair cyfrol gyntaf. Adwaith plentyn, geiriau plant – be oedd wedi digwydd i'r bardd egr, ei fod o rŵan yn medru disgrifio Crocodeil Afon Menai fel "Anghenfil cwstad-felyn", a threulio cerdd gyfan yn disgrifio adwaith babi i gyrtens? Datblygiad oedd hyn, nid gwyriad na gwrthgilio. Dyn, tad, oedd yn medru dirnad sut y gallai plentyn weld rhyfeddod yn y pethau lleiaf, mwyaf cyffredin. Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn colli'r ddawn hon, yn caledu. Wnaeth o ddim.

Meg Elis

Mae yna dristwch, sobreiddiwch hyd yn oed, yn llawer o'i waith, ac i mi, roedd hyn i'w weld ar ei finiocaf yn y cyfrolau sy'n briodas mor berffaith rhwng ei ddawn ef â geiriau a dawn Ted Breeze Jones.

Dwi'n dychwelyd dro ar ôl tro at y gerdd 'Tylluan' yn *Ac Anifeiliaid y Maes Hefyd.* Mae'r llun yn syfrdanol – llygaid tylluan mewn llun agos: llygad-dynnu yng ngwir ystyr y gair. A geiriau'r bardd fel litani: "O'r gwyll hen, syllu golygon … Gŵyr hi, gŵyr hi'n hen iawn." Nes dod at y terfyn iasol:

O nos faith y bydysawd syllu golygon
Ar rawd druan, ffawd druan plant dynion

Rydw i'n galaru am fardd oedd yn ymdeimlo'n llwyr â 'ffawd druan plant dynion', ond un oedd hefyd yn cyd-deimlo ac yn cydymdeimlo â nhw yn eu gwendid, eu gwiriondeb a'u gorfoledd.

Ac yr ydw inna'n galar-blydi-nadu bod Gwyn Tom wedi mynd.

‘Cael Profiad o’ a ‘Dysgu am …’
Meithrin dawn y galon mewn addysg
gan Eric Hall

Rydym ni i gyd yn ymwybodol fod cefnogaeth i’r ffydd Gristnogol yn y wlad yma ac yn Ewrop yn gyffredinol yn gwanhau yn gyflym. Er bod nifer o ffactorau yn cyfrannu at hyn, mae yna un sy’n allweddol, sef methiant ein hymdrechion yn ein hysgolion a’n hysgolion Sul i ddarbwyllo dysgwyr o bresenoldeb yr ysbrydol. I daflu ychydig oleuni ar hyn, gallwn droi at ysgol o athronwyr addysg dan yr enw ad-ddygol (reductionist). Credant y gellir crynhoi’r profiad dynol i nifer fach o gategorïau sylfaenol. Ar ôl arolwg o’r holl wahanol brofiadau mae’r byd yn eu cynnig i’r ddynoliaeth, mae’r athronwyr addysg Hirst a Peters yn awgrymu ein bod ni’n ymateb i’r profiadau mewn saith ffordd sylfaenol wahanol, sy’n seiliedig ar ffurfiau gwybodaeth (Mathemateg, Gwyddoniaeth, y Gwyddorau dynol, Hanes, Crefydd, Llenyddiaeth a’r Celfyddydau cain, ac Athroniaeth).

Mae pob un *ffurf* yn annibynnol. Mae gan bob un ei chysyniadau canolog, fel disgyrchiant, egni a phroton mewn gwyddoniaeth, neu rif, prif ffactor a matrics mewn mathemateg a.y.b. Hefyd mae gan bob un ei feini prawf o’r gwirionedd. Beth sy’n bwysig i ni yw’r ffaith fod meini prawf y gwirionedd yn wahanol ym mhob *ffurf*. Nid yw’r meini prawf mathemategol yn gallu gweithredu yn y celfyddydau cain. (Pwy yn ei iawn bwyll fyddai’n defnyddio egwyddorion mathemategol i brofi gwirionedd yr Offeren yn B leiaf gan Bach?)

Ond, yn bwysicach fyth, nid oes gan feini prawf gwyddonol ddim i’w ddweud o fewn y ffurf grefyddol (gan eithrio lle mae’r Beibl yn gwneud datganiadau gwyddonol, e.e. oedran y ddaear). Mae un yn hollol wrthrychol a’r llall yn hollol oddrychol. Pan ddywedodd Job, “Canys myfi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw”, nid datganiad rhesymegol ydyw ond datganiad y galon. Mae 1 Corinthiaid 1 yn gwneud rhywbeth tebyg. Hefyd, “Y mae teyrnas Duw o’ch mewn” – y tu hwnt i grafangau gwrthrychedd gwyddoniaeth.

Nid yw Hirst a Peters yn awgrymu fod y saith *ffurf*, o angenrheidrwydd, yn ymddangos fel pynciau yn y cwricwlwm, ond mae’n bwysig fod pob un ohonynt yn cael lle yn rhywle mewn addysg gyflawn, y tu mewn neu’r tu allan i’r cwriciwlwm ysgol. I’r graddau nad yw hyn yn digwydd, cawn sefyllfa lle mae rhan o brofiad y byd a all fod yn real ac yn ddealladwy yn absennol neu’n annealladwy.

RHAGOR

I ddarllen gweddill yr erthygl hon cliciwch yr un pryd ar CTRL ac **YMA** neu os ydych yn darllen copi print, ewch http://cristnogaeth21.cymru/cael-profiad-o-a-dysgu-am-gan-eric-hall/

facebook

Erbyn hyn, mae dros 180 o bobl yn ein dilyn ar Facebook, ac rydym yn ddiolchgar i’r criw bach diwyd sy’n cynnal y presnoldeb hwnnw. Os hoffech chi ymuno â’r grŵp hwn, ewch draw i dudalen Facebook i ymuno yn y sgwrs.

Holi tipyn ar Dyfed Edwards, awdur 'Iddew'

Dyfed Edwards

Llongyfarchiadau ar gyfrol sydd wedi ennyn cymaint o ddiddordeb. Mae dros 300 o weithiau creadigol llenyddol wedi eu cyhoeddi am Iesu yn Saesneg. Mae rhai wedi eu hysgrifennu yn Gymraeg ond mae hon, a dweud y lleiaf, yn wahanol iawn.

1. Mae ôl ymchwil manwl iawn ar Iddew *o safbwynt iaith, cefndir a'r stori wreiddiol. Mae dewis a dethol, wrth gwrs, a hynny'n anorfod. Ai ailedrych ar y stori oedd yn stori eich cefndir a'ch magwraeth, ynteu oeddech chi'n dibynnu'n llwyr ar ymchwil newydd?*

Mae pawb yn dewis a dethol. Nofelwyr a sgriptwyr, yn enwedig, wrth greu ffuglen. Rhaid gwneud i adeiladu stori. A dyna sydd yma: stori. Dwi wedi defnyddio'r ffynonellau sydd ar gael: yr Efengylau a hefyd ymchwil i Iesu hanes. Mae rhestr reit hir o'r llyfrau borais drwyddynt yng nghefn y nofel.

2. *Oedd yna rywbeth ynglŷn â Iesu o Nasareth oedd yn eich denu ato, neu benderfyniad i ysgrifennu cyfrol ddadleuol ar gyfer yr Eisteddfod ydoedd, a bod crefydd yn bwnc sensitif (ac yn darged hawdd) y dyddiau hyn?*

Dwi'n meddwl mai safbwyntiau eraill amdano oedd yn denu fwya. Mae Iesu'n ddalfan i fydolwg pobl, yn enwedig Cristnogion, ac nid yw hyn yn help o gwbl wrth geisio datrys pwy oedd o go iawn. Nid oedd yn fwriad bod yn ddadleuol, ond dwi'm yn gweld pam na ddylai crefydd fod yn darged beirniadaeth. Nid oes unrhyw syniad na ddylid ei archwilio. A dweud y gwir, mae crefydd, Cristnogaeth yn y gorllewin, wedi cael ei ffordd ei hun am ganrifoedd, heb unrhyw sgrwtini allanol o gwbl. Dylai pob syniad – crefyddol, gwleidyddol, athronyddol – gael ei herio.

3. *A fyddech yn ystyried y nofel yn nofel gyfoes, wleidyddol? Neu a oedd dweud y stori yn ddigon i chi?*

Roeddwn wedi fy nhrwytho yn y cyfnod, y ddaearyddiaeth, a'r hanes wrth sgrifennu *Iddew*. Nid sylwadaeth ar y byd sydd ohoni ydi hi, ond nid yw'n broblem i mi fod rhai'n credu hynny.

4. *Mae'r deunydd gwreiddiol yn rhoi digon o le a chyfle i feirniadu'r rhai oedd am amddiffyn eu crefydd a hwy eu hunain. Fel anffyddiwr, a yw'r anffyddiaeth honno wedi datblygu fel ymateb yn erbyn 'crefyddwyr' a dylanwad crefydd (fel yn achos llawer o bobl) neu ai methu credu yn Nuw sy'n gyrru eich anffyddiaeth ac nad oes a wnelo dim â'r eglwys a chrefyddwyr?*

Fe gamddehonglir anffyddiaeth gan rai crefyddwyr, yn aml er mwyn codi "dyn gwellt" (straw man) mewn dadl.

Diffyg ffydd mewn duwiau yw anffyddiaeth, dyna i gyd; nid datganiad nad oes yna rai. Ella fod yna rai, ond daw fy anffyddiaeth i – a nifer o anffyddwyr dwi'n eu hadnabod – o absenoldeb unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r honiad fod yna dduwiau, neu efallai un Duw'n benodol. Nid yw'n deillio fel ymateb yn erbyn crefyddwyr, ond fel ymateb i'r diffyg – yn ôl pob golwg – tystiolaeth.

5. *Mae'n annisgwyl fod eich nofel yn gorffen, nid gyda'r croeshoeliad ond gyda Saul yn sôn am ei aileni 'yng ngwaed ei aberth o' a bod y byd i gyd yn disgwyl y neges hon am Iesu. Mae'n nodyn gobeithiol, ac yn dweud mai'r dechrau yw hyn. Pam dewis y diwedd yma?*

Roedd Saul/Paul yn gymeriad tra gwahanol i Iesu. Rydan ni'n gwybod mwy amdano ar gownt ei saith llythyr. Roedd o'n amlwg yn ffwndamentalydd, yn credu'n absoliwt yn ei neges. Mae'n ymddangos i mi nad oedd ganddo fawr o ddiddordeb ym mywyd, a hyd yn oed neges, Iesu, ac mi ganolbwyntiodd ar y croeshoeliad a'r atgyfodiad, a datblygu ei neges o gwmpas hynny. Fel rhywun nad oedd wedi cyfarfod Iesu, roedd ganddo awydd i ddangos, yn fy meddwl i, fod ei berthynas gyda Iesu gystal ag un Pedr ac Iago. Ni allai byth gystadlu gyda'r ffaith eu bod nhw wedi cyfarfod, wedi crwydro, ac yn achos Iago, wedi tyfu, gyda Iesu.

Felly, mi aeth Saul/Paul ati i geisio gwneud synnwyr o'r hyn roedd o wedi ei brofi, a rhyw dduw atgyfodedig welodd o, nid proffwyd dynol iawn. Iddo fo, roedd hyn i gyd yn golygu "dechrau" gydag atgyfodiad, nid "darfod" gyda dienyddiad.

Blasu Tamaid o
Iddew
gan Dyfed Edwards

Mae Iesu a'i ddisgyblion ar lethrau Mynydd yr Olewydd (Har HaZeitim) ac mae Iesu yn edrych ar y cannoedd o bererinion yn torheulo, yn ymlacio, yn diogi ac yn gweld y milwyr Rhufeinig ar ben muriau Jerwsalem. Mae'n cynhyrfu ynddo'i hun. Mae Pedr (Kepha) yn torri ar draws ei feddyliau. Mae Pedr yn gweld Yako (brawd Iesu).

(tudalennau 170–171)

Mae ei lygaid yn chwilio. Yn chwilio'r ddinas. Yn chwilio'r muriau. Yn chwilio llethrau Har HaZeitim. Yn chwilio –
Mae Ieshua'n stiffio –
Mae'r tân yn cynnau eto –
Mae Kepha'n synhwyro –
Beth sydd rabboni? Ac mae Kepha'n cyfeirio at rywun –
At Yakov. Ei frawd o. Ei frawd o eto. Ei frawd o eto o Natz'rat. Ei frawd o eto ar y llethrau. Ar lethrau Har HaZeitim. Ei frawd o yn ei hawntio fo. Ei frawd yn sefyll ac yn syllu. Ei frawd o yn codi llaw arno fo. Yn cyfarch. Mae Iesu'n crynu. Mae o yn troi ei gefn. Mae o yn troi rhag iddo gael ei aflonyddu. Yn troi rhag iddo weld ei hun. Gweld ei hun yn wyneb ei frawd. Gweld ei hun mewn dyn. Gweld ei hun mewn saer maen. Gweld ei hun yn y llwch ac yn y brics. Ond ni all beidio ag edrych. Ni all droi rhag y drych. Ac mae o'n edrych i gyfeiriad Yakov eto. Edrych i weld ei frawd eto. Edrych i weld ei hun eto. Ac mae Yakov yn ei gyfarch eto. O bell. Yn codi llaw. Yakov ym mysg cyfeillion. Yr un hen wynebau o Natz'rat. Yr un hen wynebau yn dod i'r Pesach pob blwyddyn. Yr un hen wynebau ddaeth gyda Yeshua i'r Pesach ers ei fod o'n bar mitzvah. Ers ei fod yn fab y gorchymyn. Ers ei fod o'n ddyn. Flwyddyn ynghynt roedda nhw i gyd yma.



Flwyddyn ynghynt yr oedd yma. Ond nid y fo. Yeshua arall oedd hwnnw. Dyn arall. Byd arall. Mae o'n ddyn newydd erbyn hyn. Ac mae'r byd yn newydd hefyd. Neu mi fydd o cyn bo hir.

Fe hoffem yn fawr gael eich ymateb i'r nofel eithriadol hon. Fe fu bron iddi ennill Gwobr Goffa Daniel Owen – y wobr bwysicaf am nofel Gymraeg – yn 2015. Anfonwch atom ac fe gyhoeddwn eich sylwadau, neu os daw nifer, fe fyddwn yn cyhoeddi detholiad.

CYFARFOD PWYSIG

Cofiwch y bydd yr Esgob John Shelby Spong yn dod atom i Gaerdydd ddydd Sul, Hydref 23ain eleni, a hynny ar wahoddiad arbennig gan Cristnogaeth 21. Cynhelir y cyfarfod yng nghapel Salem, Treganna yn ystod y prynhawn. Rhagor o fanylion i ddod.

Sut aeth yr encil?

Nant Gwrtheyrn, 8–9 Ebrill

Encilio i Nant Gwrtheyrn? Pa encil corfforol mwy trylwyr? Ac roedd hi'n oer a gwlyb (ddim dan do, wrth gwrs – mae'r ddarpariaeth yn raenus a chynnes a hardd) ac eira yn Llithfaen. Ond bwriad encilio oedd tyfu i fod yn gymuned newydd. Nos Wener cawsom wylio'r ffilm *Malala yw fy Enw* a sylweddoli mor rhannol, mor rhagfarnllyd, mor Orllewinol o gam yw ein dealltwriaeth o beth sy'n digwydd ym Mhacistan, ac yn y gwrthryfel mileinig sy'n llithro o un enw i'r llall – Taliban – Al-Quaeda – Isis.

Ar y Sadwrn clywsom *ddwy* fardd (allwch chi ddim galw Mererid Hopwood a Karen Owen yn *ddau)* yn darllen enghreifftiau o'u gwaith, yn sôn tipyn am eu profiadau a'u gwerthoedd ysbrydol. Yn y prynhawn, fel yn yr encil gyntaf yn Nhrefeca, cawsom sesiwn driphlyg, 'Fy Newis I', a thri yn cyfrannu'n fyw o rywbeth creiddiol bwysig iddyn nhw.

Soniodd yr Athro Deri Tomos, Athro Biocemeg yn y brifysgol ym Mangor am ddau realiti, y materol a'r goruwchnaturiol, a'r her o fynegi lle y mae'r ddau yn cyd-gyffwrdd.

Siaradodd Esyllt Maelor yn drydanol ddwys ac urddasol allan o'i galar o golli ei mab, Dafydd, mewn damwain car flwyddyn yn ôl. A John Gwilym Jones, ar fyr rybudd, yn ein tywys ar daith o fyfyrio gyda thri bardd ar arwyddocâd darlun Bruegel o gwymp Icarus, a hedfanodd yn rhy agos i'r haul. Erys arweiniad defosiwn

Nant Gwrtheyrn

Anna Jane yn y cof hefyd – yn rasol a llafar a *doniol*! Anodd cyfleu cynhesrwydd y sgwrsio a'r darganfod wrth brydau bwyd, y llawenydd o fedru rhannu'n onest a chyd-ddyheu, y rhyddhad o beidio gorfod profi dim.

Cadwch olwg am ddyddiad yr encil nesaf – yn y de yn rhywle, yn yr hydref rywbryd, a bachwch le cyn gynted ag y medrwch.

Amgyffred Waldo



I'r enw nad oes mo'i rannu;

Y rhuddin yng Ngwreiddyn Bod,

Tawel ostegwr helbul hunan.

Canllaw i Weddïo

TYDI
Tydi – tangnefedd pob tawelwch
Tydi – y man i guddio rhag niwed
Tydi – y goleuni sy'n llewyrchu yn y tywyllwch
Tydi – gwreichionen dragwyddol y galon
Tydi – y drws sy'n llydan agored
Tydi – y gwestai sy'n aros o'n mewn
Tydi – y dieithryn wrth y drws
Tydi – yr un sy'n galw'r tlawd
Tydi – fy nghariad, cadw fi rhag cam,
Tydi – y goleuni, y gwirionedd, y ffordd.

YNGHUDD
Fel y cuddia'r glaw y sêr,
Fel y cuddia niwl yr hydref y bryniau
Fel y cuddia'r cymylau lesni'r wybren,
Felly y mae digwyddiadau tywyll fy oes
yn cuddio dy wyneb disglair oddi
wrthyf;
ond os caf ddal dy law yn y tywyllwch,
digon yw.
Gwn, er i mi faglu wrth gerdded
nad wyt Ti ddim yn syrthio.

GWELEDIGAETH
Caniatâ i ni weledigaeth o'th deyrnas,
Faddeuant a bywyd newydd,
A deffroad dy Ysbryd,
Fel y cawn rannu dy weledigaeth,
Cyhoeddi dy gariad
a newid y byd
yn enw Crist,
Amen.

Ydwyf yr hyn ydwyf – IHWH

'Nid enw yw "Duw" ond Berf'

gan Enid R. Morgan

Enid R. Morgan

Mae'r ymadrodd trawiadol hwn gan Aled Jones Williams yn *Duw yw'r Broblem* wedi glynu yn fy meddwl a'm hatgoffa am y berth yn llosgi, a'r Moses a droes o'r neilltu i sylwi arni. Oes yna ffordd o ddehongli'r stori a fyddai'n help i ni? Wrth y berth ac ar ôl mynnu mai'r un Duw ydyw â'r un siaradodd ag 'Abraham, Isaac a Jacob' y mae'r *presenoldeb* yn yngan y gair IHWH.

Tynnwyd fy sylw yn ddiweddar at gyfrol fach *Prayers of the Cosmos, Reflections on the Original Meaning of Jesus's Words* gan Neil Douglas-Klotz (Rhagair gan Matthew Fox: *Harper Collins ISBN 978-06-061995-4*). Yn y fan honno dadleuir bod y gair pedwar sill, IHWH, a leferir o'r berth yn llosgi, yn swnio'n debycach i ochenaid neu chwythiad anadl nag i air cyffredin. Ac i'r Iddewon, doedd e'n sicr ddim yn air i'w ynganu. Dyna paham, yn Llyfr y Salmau, lle mae'r gair IHWH yn ymddangos, y mae'r gair *Arglwydd* (Adonai) yn cael ei osod yn ei le. Mae gosod yr ynganiad dieithr yn lle'r *Arglwydd* gor-gyfarwydd, yn help i'n rhyddhau rhag ein hyfdra arwynebol.

Y Traddodiad Iddewig Gristnogol

Mae ailwerthfawrogi rhai o'r dealltwriaethau rhyfeddol yn y traddodiad Iddewig Gristnogol mewn ffordd sy'n ddeallusol onest ac yn parchu dysg yn ein cadw ni ar daith gyffrous. Mae'n goleuo'r perygl parhaus i ni lithro i feddwl am Dduw fel 'un o'r duwiau' ac i dybio mai unlliw yw iaith yr ysgrythurau. Dywed James Alison fod IHWH, yr Arall-arall, yn 'debycach i ddim byd o gwbl' nag ydyw i'r mân dduwiau a delwau y mae hi mor hawdd hercian 'nôl atynt. Dywed Simeon y Diwinydd Newydd (9ed ganrif) na allwn o ran natur ein crebwyll wybod mwy am 'Dduw' nag a welwn wrth fynd i lawr i lan y môr ar noson dywyll a chodi llusern i edrych ar y tonnau. Mae'r 'iachawdwriaeth' yn wir 'fel y môr'.

Dyna pam y bydd *Agora* yn ymdrechu bob mis i gynnwys cyfraniad 'Beiblaidd'. Y mae pob adnewyddiad, pob diwygio hanner call wedi ei wreiddio mewn darllen y Beibl mewn ffordd newydd, greadigol. (Rwy'n cofio Gareth Lloyd Jones, cyn-ganghellor Cadeirlan Bangor, chwarter canrif yn ôl yn darlithio'n gyffrous i Ysgol Glerigol Tyddewi ar stori'r berth yn llosgi, a rhyw ffŵl o giwrat nad ydw i'n gwybod pwy oedd e, a diolch am hynny, ar y diwedd yn meddwl ei fod yn glyfar wrth ei herio trwy ofyn, "Ond ydych chi'n credu bod yno berth yn bod?")

Berf nid Enw

Daw'r sgwrs ger y berth yn llosgi i ben gyda Moses yn ymdrechu i gael gafael ar air priodol, ar enw, i'r presenoldeb fu'n ei annerch. Pwy ddweda i wyt ti? Beth yw dy enw di? Ac mae'r ateb yn llawn dirgelwch, oherwydd fel ag ym mhrofiad Aled Jones Williams, *berf* sydd yma, nid *enw*. YHWH, y pedair llythyren nad ydyn nhw i gael eu hyngan. A'u hystyr yn YDWYF . Neu gallai olygu *Byddaf yn beth fyddaf*. Mae'r ferf yn golygu gweithred heb ei chwblhau. A dywedir y byddai yngan y gair yn swnio'n debycach i ochenaid go chwyrn, neu'r sŵn a wneir wrth anadlu ar damed o wydr er mwyn cael stêm i'w lanhau. Sŵn yr ysbryd (y *ruah* hwnnw) oedd yn dygyfor ar y *chaos* cyn y creu. Nid El, na hyd yn oed y mwyaf o'r *elohim*, y bodau a luniodd feddylfryd Abraham, cyn iddo sylweddoli nad YHWH ofynnodd iddo ladd ei fab.

Enw nad oedd i'w yngan

Syndod ydi sylweddoli mai dyma'r llythrennau oedd wedi eu brodio ar wisg yr archoffeiriad yn y deml (yr un gyntaf yr oedd pawb yn hiraethu amdani hoerwydd iddi gael ei cholli yn ogystal â'r defodau a'r 'symbolau' a'i llenwai). Ar ei benwisg, ar ei *cuffs*, ar y wisg ddiwnïad, brodiwyd yr 'enw' nad oedd i'w yngan. Yr oedd yr archoffeiriad yn dod yn llythrennol hollol gan wisgo enw'r *Arglwydd*. Yr oedd yn gwisgo enw nad oedd i'w yngan ac eithrio gan ei gynrychiolydd, yr archoffeiriad ar ddydd y Cymod.

Dyna pam y mae'r defnydd a wneir yn yr Efengyl yn ôl Ioan o'r gair YDWYF yn gwbl drydanol. Y mae dealltwriaeth Ioan o Iesu â'i wreiddiau'n ddwfn yn nhraddodiad y deml.

Parhad ar y dudalen nesaf ⇒

Ydwyf yr hyn ydwyf – IHWH

(Parhad o dudalen 10)

Efallai y daw'r amser pan fyddwn ni'n gallu arddel y traddodiad hwnnw. Nid oedd y Protestaniaid a aeth ati i gyfieithu'r Beibl i ieithoedd y bobl yn awyddus i roi unrhyw bwys ar draddodiad offeiriadol addoli'r deml. Buasai hynny'n llawer rhy debyg i'r Eglwys Rufeinig yr oedden nhw am ei dileu a dod â'r holl 'stwff' ofergoelus yna i ben. Doedden nhw ddim ar unrhyw gyfrif yn awyddus i roi pwys ar ddefodaeth, nac offeiriadaeth, na defod aberthol. Mynnent, ar sail yr Epistol at yr Hebreaid, fod 'aberth' Iesu, unwaith am byth wedi rhoi terfyn ar hynny i gyd.

Wrth ddilyn ôl eu camre rydyn ni wedi colli gafael ar lawer o'r cysyniadau oedd yn dra phwysig i awduron gwreiddiol yr ysgrythurau. Y mae disgrifiad Efengyl Ioan o ddioddefaint ac angau Iesu yn defnyddio cysyniadau'r deml am Dduw yn dod i blith ei bobl, ac yn ymddangos mewn cnawd yn yr archoffeiriad. Doedd dim llawer o siâp ar yr archoffeiriaid diweddar cyn cyfnod Iesu, ond yr oedd y traddodiad hynaf amdano yn cael ei wireddu wrth i Iesu ddweud Myfi yw (Ydwyf) Bara'r Bywyd, Myfi yw Goleuni'r Byd, Myfi yw'r Atgyfodiad, Myfi yw'r Bugail Da. Mae Ioan fel petai'n dweud, Ydych chi'n deall? Gwrandwch! Talwch sylw! Y mae'r un a welson ni, yr un y buon ni'n byw gydag e, yn un â'r llais a lefarodd wrth Moses allan o'r berth yn llosgi.

ARCHIFAU

Mae gennym archif helaeth o erthyglau gwerthfawr ar y wefan. Ewch i www.cristnogaeth21.cymru a phwyso'r botwm 'ARCHIF'

Y Llun ar Frig y Wefan

Mae'n siŵr y bydd rhai ohonoch wedi sylweddoli mai llun o Abaty Iona sydd ar frig y wefan. Mae'n dangos y cloestr lle byddai'r hen fyneich Benedictaidd yn tramwyo ar ei hyd ar un adeg, ac mae'n ddelwedd eiconig i gynrychioli'r gymuned ecwmenaidd sydd heddiw'n weithredol dros y byd i gyd yn gwneud gwaith ymarferol o blaid heddwch, a chyfiawnder cymdeithasol, yn ogystal â datblygu ffurfiau newydd o addoli.

Abaty Iona fin nos.
(Hawlfraint y llun: Cymuned Iona)

Mae'r cerflun a welir o waith Jacques Lipchitz, arlunydd o Lithuania, ac fe'i cyflwynwyd ganddo i'r gymuned yn 1959. Mae'n portreadu'r golomen, sef yr Ysbryd Glân, yn disgyn i'r ddaear mewn cwmwl gan gludo Mair a rhai o anifeiliaid y maes.

Y teitl yw "Disgyniad yr Ysbryd Glân", ac mae'r arysgrif arno (mewn Ffrangeg) yn dweud:

"Yr Iddew Jacques Lipchitz, oedd yn ffyddlon i grefydd ei gyndadau, a luniodd y Forwyn hon fel bod yr Ysbryd Glân yn gorchfygu er mwyn sicrhau ewyllys da ymhlith dynion ar y ddaear."

YDWYF gan James Alison

Dywedodd Duw wrth Moses "YDWYF YR HWN YDWYF"

Dyma, felly, ateb yr atebion, ac ar yr un pryd y pennaf ddim-ateb-o-gwbl. Oherwydd y mae'r un Duw sy ddim yn cystadlu â dim sy'n bod, ac sy'n bwriadu dod â rhywbeth newydd i fodolaeth trwy ddefnyddiau tra anaddawol, yn gwbl y tu allan i ffurfiau cyffredin o ymddygiad dwyfol, hefyd yn gwrthod bod yn *Beth* nac yn *Ef*. *YDWYF*, ond yna *BYDDAF YR HWN Y BYDDAF*. (Mae hwn o bosibl yn gyfieithiad llai camarweiniol o'r cymal eithriadol o annirnad hwn.) Dyma rywbeth na ellir gafaelyd ynddo, yn dod tuag atoch chi, a'r "amhosibl gafaelyd yno" yn hanfod i beth sy'n mynd mlaen. *YDWYF* yw'r un sy'n troi mâs i fod yn weithredydd go iawn, yr un sy'n dwyn popeth i fodolaeth; ac felly dim ond i'r graddau y mae rhywun yn rhoi'r gorau i dreio bod yn "*ydwyf*" yn wyneb Duw, yn treio gwneud Duw yn "beth" neu'n "ef" y bydd y person, neu'r grwp yn dechrau derbyn eu hunain, eu gwir "hunain", eu gwir *Ydwyf* israddol, fel grwp neu fel personau unigol.

Yn wyneb yr *YDWYF*, y gweithredu pur bwriadus, anfrysiog, yn creu ac yn symud, dim ond symptomau yw'r cwbl ohonom, yn *bethau*, yn *nhw* sy'n cael eu newid i fod yn *ni* ac yn *fi* trwy broses hanesyddol o berthyn, yn y fan lle y cawn ein hunain yn cael ein galw i addoli yr Arglwydd.

Dywed hyn wrth feibion Israel "Ydwyf sydd wedi fy anfon atoch".

Sylwch os gwelwch yn dda, nag ydi hwn ddim yn orchymyn defnyddiol iawn. Ystyriwch y ramadeg. Holl bwynt "YDWYF"yw nad ydyw'n "beth" nac yn "ef", ac felly nid yw berf yn y trydydd person unigol yn gwneud synnwyr o unrhyw fath. Yr unig ffordd bosibl y bydd Moses yn medru cyfleu'n ddilys mai YDWYF sy'n ei anfon, fydd trwy ddyfod ei hunan yn fwy fwy gweladwy fel arwydd byw o YDWYF.

Dywedodd Duw eto wrth Moses, "Dywed hyn wrth feibion Israel, 'Yr Arglwydd, Duw eich tadau, Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Jacob sydd wedi fy anfon atoch; dyma fydd fy enw am byth, ac fel hyn y cofi amdanaf gan bob cenhedlaeth"
(Exodus 3.14)

Mae Duw yn ychwanegu'r wybodaeth hon bod pobl Israel i ddysgu dehongli popeth sy'n digwydd iddyn nhw o hyn ymlaen drwyddo fe, fel petae, o fewn i un gweithred unol. Bydd yr enw YDWYF neu BYDDAF YR UN A FYDDAF yn cael ei ddatguddio fel yr enw lleia camarweiniol i'r un a fu'n weithredydd eu hanes ar hyd yr amser dan wahanol enwau a theitlau. Gellir gwaredu'r enwau rheini nawr, wrth i Greawdwr popeth, profiad o erledigaeth, a dwyn pobl newydd i fodolaeth, osod siâp ffurfiannol ar y profiad Hebreig…

Gobeithio'ch bod chi wedi cael rhyw awgrymiadau o sut y gall y "llyfr mawr du" fod, yn hytrach nag yn arf i labystiaid moesol, o'i ddal mewn dwylo sydd ddim ag ofn arnyn nhw, ddod yn fan chware ar gyfer gweithred o gyfathrebu gan Dduw sy'n troi ynom ni'n barchedig ofn a rhyfeddod.

(o *Y Dioddefus sy'n Maddau* gan James Alison (cyf. Enid R Morgan) a gyhoeddir yn fuan gan Cyhoeddiadau'r Gair)

Croeso i 'Lyfr Bychan'

Adolygu *Ar Drywydd Dewi Sant*

gan

Ann Parry Owen

'Llyfr bychan yw hwn,' meddai Gerald Morgan ar ddechrau'r gyfrol fach ddeniadol hon, ond nid bychan o gwbl yw'r dasg y mae'r awdur wedi ei gosod iddo'i hun, sef esbonio yn glir ac yn syml pwy oedd Dewi a phryd a pham y datblygodd i fod yn nawddsant Cymru. Dyma'r cwestiynau sydd yng nghefn ein meddyliau ni i gyd pan ddaw'r cyntaf o Fawrth bob blwyddyn a ninnau'n gwisgo ein cenhinen Bedr neu'n cennin gyda balchder mewn ciniawau dathlu, mewn eisteddfodau ysgol neu leol, neu hyd yn oed ar barêd Gŵyl Ddewi.

Gerald Morgan

Er mwyn ateb y cwestiynau hyn mae'r awdur wedi mynd ati i gasglu tystiolaeth o bob math o ffynonellau – yn ffynonellau hanesyddol, llenyddol, enwau lleoedd a chelfyddyd weledol, a hynny o Gymru a thu hwnt. Mae hefyd wedi manteisio ar yr ymdriniaethau academaidd diweddaraf ar y pwnc (ceir rhestr ddefnyddiol o'r rhain ar ddiwedd y gyfrol). Ond ei gymwynas fawr â ni yw'r ffaith ei fod wedi treulio'r holl ffynonellau gwybodaeth astrus hyn, ac wedi llwyddo i gyflwyno i ni ymdriniaeth gynhwysfawr, ddifyr a hynod ddarllenadwy.

Mae'r gyfrol yn ymrannu'n hwylus yn benodau sy'n trafod sawl agwedd ar y sant, gan ddechrau gyda'r dystiolaeth gynharaf am Ddewi, y person o gig a gwaed a drigai yn y chweched ganrif; y traddodiadau a'r chwedlau a ddysgwn amdano gan Rygyfarch a gofnododd ei fuchedd yn Lladin tua'r flwyddyn 1090 a'r addasiad Cymraeg a ddaeth tua dwy ganrif yn ddiweddarach. Yna, sonnir am ddatblygiad cynnar ei gwlt a'i bwysigrwydd i bererinion; ei gysylltiad arbennig â Cheredigion (ie, mae'n bosibl mai Cardi oedd Dewi!) ac â Thyddewi; ei le yng ngwasanaethau'r Eglwys; beth oedd gan feirdd yr Oesoedd Canol i'w ddweud amdano, a phwysigrwydd Dewi a Non yn Llydaw ac Iwerddon. Ymdrinnir hefyd ag agweddau ar Ddewi mewn oes fwy fodern, gyda'r penodau ar Ddewi Sant ym myd ffantasi ac arwyddocâd Dewi yn yr oes seciwlar hon yn hynod o ddifyr. Ar ddiwedd y gyfrol ceir dau atodiad: y naill yn rhestru'r eglwysi cysylltiedig â'i enw a'r ail yn rhoi crynodeb hwylus iawn i ni o fuchedd Ladin Rhygyfarch, Vita Sancti David.

Rhaid yw llongyfarch Gerald Morgan ar y gyfrol hon a byddwn i'n annog pob Cymro i'w phrynu (mae ei phris yn hynod o resymol) – yn sicr mae'n gyfrol sy'n haeddu ei lle ar fy silff lyfrau i!

Ar Drywydd Dewi Sant, gan Gerald Morgan Lolfa (clawr meddal, 152 tudalen, lluniau du a gwyn: pris £5.99)

Rownd y Gwefannau

Mae gwefan Cristnogaeth21 wedi dangos y cyfraniad unigryw y gall cymuned ar-lein ei wneud i'n taith Gristnogol. Gyda rhai miloedd wedi darllen rhai erthyglau ar y wefan, mae'n amlwg fod angen yn cael ei ddiwallu. Byddai'n braf petai darllenwyr Agora yn gallu rhannu eu gwybodaeth am wefannau sydd yn help i'w cynnal. Dyma bedair gwefan sydd o ddiddordeb wythnosol i un o selogion C21 ar hyn o bryd.

John Pavlovitz

www.johnpavlovitz.com a thudalen Facebook o dan ei enw.

John Pavlovitz

Ar hyn o bryd, dyma ffynhonnell fawr o ysbrydoliaeth wythnosol. Roedd Pavlovitz yn weinidog dros gynulleidfa leol, ond erbyn hyn mae ei weinidogaeth wedi symud ar-lein. Mae ei dudalen Facebook a'i flog rheolaidd yn mynd at hanfod materion o bwys – o bersbectif Americanwr. Yr hyn sy'n gwneud Pavlovitz yn werthfawr yw ei allu i fynd at hanfod materion sydd uwchlaw agenda a diwylliant ei wlad. Mae ei ddarnau ar ei brofiadau personol fel galarwr a chysurwr wedi bod yn gysur i filoedd ac yn gallu cynnig arweiniad i'r rhai hynny ohonom sy'n bugeilio pobl mewn galar. Ar ei wefan mae cymuned ar-lein o'r enw *The Table* – lle gallwch ymuno â grŵp trafod caeëdig.

PCN Prydain

www.pcnbritain.org.uk

Ar draws y byd mae cynnydd wedi bod yn nifer y mudiadau sy'n mynd i'r afael â'r un materion ag sydd o bwys i Cristnogaeth21. Un sefydliad o bwys yw Progressive Christianity Network Britain. Ar eu gwefan fe welwch ddeunyddiau myfyrio a thrafod, ac adnoddau sydd wedi eu casglu dros y blynyddoedd. Os ymunwch â PCN, cewch gylchgrawn Progressive Voices hefyd.

Ship of Fools

http://shipoffools.com/ a thudalen Facebook o dan yr un enw.

Gwefan gomedi yn llawn hiwmor dychan iach am grefydd, yr eglwys a llawer mwy. Fy ffefryn yw Mystery Worshipper – lle mae unigolyn anhysbys yn mynd i wasanaeth mewn eglwys ac yn ysgrifennu erthygl am yr eglwys honno. Sut fyddai eich heglwys chi yn sgorio? Cymerwch olwg, ac wedyn aseswch eich Sul cyffredin!!

(Parhad ar y dudalen nesaf)

Rownd y Gwefannau

(Parhad o'r dudalen flaenorol)

Dyma esiampl o un eglwys yn Llundain:

Was the worship stiff-upper-lip, happy clappy, or what?

It ticked just about every box one could think of when identifying a church as charismatic and evangelical. In the first 40 minutes, we only finished three songs that were sung and over again (one from Hillsong, one from Vineyard and one by Matt Redman) and interspersed with prayers that asked for "breakthrough" in a number of things. There was lots of swaying going on, arms raised to the sky, that sort of thing. Just before the offering, we were asked to hold our money up in the air, but it wasn't clear why.

Exactly how long was the sermon?

36 minutes.

On a scale of 1–10, how good was the preacher?

6 – Pastor Jonathan is clearly an experienced public speaker and spoke with humility and wit, though the formulaic content of the sermon and scattergun approach to picking lots of verses out of their context made it feel a little contrived and shallow.

Christian Alternative THE NEW OPEN SPACES

www.christian-alternative.com

Un cymharol newydd ar y bloc yw hwn. Maen nhw'n hyrwyddo awduron, blogiau a chyhoeddiadau gan geisio datblygu persbectif hyddysg ac ehangach ar ein ffydd. Mae ganddyn nhw adnoddau am Gristnogaeth ac anthropoleg, cymdeithaseg, seicoleg, addysg, diwinyddiaeth a llawer mwy. Gwerth cymryd golwg.

Cadw a Newid

'Mae 'na ryw bethau mae'n rhaid i mi sôn wrthych amdanyn nhw,' meddai Betonie'n dawel. 'Mae gan y bobl heddiw ryw syniad am y defodau. Maen nhw'n credu bod yn rhaid cyflawni'r defodau yn union fel y buon nhw erioed, efallai oherwydd y gallai un camsymud neu gamsyniad bach olygu bod yn rhaid rhoi diwedd ar y ddefod a dinistrio'r darlun yn y tywod. Mae cymaint â hynny'n ddigon gwir. Maen nhw'n credu, os yw'r cantor yn newid unrhyw ran o'r ddefod, y gellid gwneud drwg mawr a gollwng rhyw bŵer mawr yn rhydd.' Bu'n berffaith ddistaw am ychydig gan edrych i fyny i'r awyr drwy'r twll mwg. 'Mae gwir yn fanna hefyd. Ond, amser maith yn ôl pan oedd y bobl newydd dderbyn y defodau hyn, fe ddechreuodd newid ddigwydd. Dim ond fod yr offeryn curo melyn yn heneiddio, efallai, neu'r croen ar grafangau'r eryr yn crebachu, neu'r gwahaniaeth yn y lleisiau o genhedlaeth i genhedlaeth wrth lafarganu. Welwch chi, mewn sawl ffordd y mae'r defodau wastad wedi bod yn newid.'

Dyfynnir yn *Native and Christian: Indigenous Voices on Religious Identity in the United States and Canada*. Gol. James Treat (Routledge, 1996)

E-fwletin C21

Os gwyddoch chi am unrhyw un a fyddai'n hoffi derbyn e-fwletin wythnosol Cristnogaeth 21, rhowch wybod i ni, drwy anfon neges at: cristnogaeth21@gmail.com



Digyfaddawd Heriau'r Esgob Spong

gan Rocet Arwel Jones

Sawl asgwrn i'w gnoi

Fe fydd yr enw John Shelby Spong yn hen gyfarwydd i lawer ohonoch. Ond efallai i rai y bydd yn enw newydd. Mae'n enwog am gynnig atebion radical i ffwndamentaliaeth Gristnogol asgell dde Gogledd America.

O danysgrifio i'w wefan cewch ddilyn hynt a helynt ei gyfrol ddiweddaraf, a gyhoeddir fesul ysgrif wythnosol dan y teitl *Mapio Diwygiad Newydd.*

Mae'n gwneud deuddeg gosodiad:

1. **Duw**

Mae deall Duw fel bod goruwchnaturiol, yn byw yn rhywle y tu hwnt i'r byd ac yn ymyrryd ynddo gyda grymoedd gwyrthiol bellach yn anghredadwy. Felly mae'r rhan fwyaf o'r drafodaeth am Dduw yn ein gwasanaethau a'n siarad bob dydd yn ddiystyr.

2. **Iesu – y Crist**

Os na ellir credu mewn Duw mewn modd theistaidd bellach, yna mae ystyried Iesu fel ymgnawdoliad o'r Duw hwnnw hefyd yn ddiystyr.

3. **Y Pechod Gwreiddiol – a Myth y Cwymp**

Mae'r stori feiblaidd am greadigaeth orffenedig a pherffaith y disgynnodd dynoliaeth ohoni i'r Pechod Gwreiddiol yn fytholeg cyn-Ddarwinaidd a nonsens ôl-Ddarwinaidd.

4. **Y Geni Gwyrthiol**

Mae deall y geni gwyrthiol fel bioleg lythrennol yn amhosibl. Yn hytrach na bod yn fur amddiffynnol i ddwyfoldeb Crist, mae'r geni gwyrthiol mewn gwirionedd yn chwalu'r ddwyfoldeb honno.

5. **Iesu'r Gwneuthurwr Gwyrthiau**

Mewn byd ôl-Newtonaidd nid yw ymyrraeth oruwchnaturiol yn nhrefn naturiol pethau gan Dduw, neu ymgnawdoliad ohono yng Nghrist, yn unrhyw fath o eglurhad o'r hyn ddigwyddodd.

John Selby Spong

6. **Diwinyddiaeth yr Iawn**

Mae diwinyddiaeth yr iawn, yn enwedig yn ei ffurf 'ddirprwyol' ryfeddaf yn ein cyflwyno ni i Dduw sy'n farbaraidd, a Christ sy'n ddioddefus ac yn troi pobl yn fawr mwy na chreaduriaid llawn euogrwydd. Mae'r ymadrodd 'bu Crist farw dros fy mhechodau' nid yn unig yn beryglus ond yn wrthun.

7. **Yr Atgyfodiad**

Trawsnewidiodd digwyddiad y Pasg y mudiad Cristnogol, ond dyw hynny ddim yn golygu mai'r hyn ddigwyddodd oedd atgyfodiad corff marw Crist i mewn i hanes dynoliaeth. Mae'r cofnodion Beiblaidd cynharaf yn nodi: 'Cododd Duw ef'. Mae'n rhaid i ni ofyn i mewn i beth? Mae'n rhaid gwahanu'r profiad o atgyfodiad o'i ddehongliadau mytholegol diweddarach.

(Parhad ar y dudalen nesaf)

Digyfaddawd Heriau'r Esgob Spong

(Parhad o'r dudalen flaenorol)

8. **Esgyniad Crist**
Mae'r stori feiblaidd am esgyniad Crist yn cymryd yn ganiataol fodolaeth bydysawd trillawr a roddwyd o'r neilltu bum can mlynedd yn ôl. Os oedd dyrchafiad Crist yn ddigwyddiad hanesyddol, llythrennol, y mae tu hwnt i'n meddyliau ni yn yr 21G i'w dderbyn na'i gredu.

9. **Moeseg**
Nid oes modd diffinio da a drwg bellach drwy bwyso ar ganllawiau hynafol fel y Deg Gorchymyn na hyd yn oed y Bregeth ar y Mynydd. Mae'n rhaid cyrraedd safonau moesol cyfoes drwy gyfosod egwyddorion moesol sy'n cadarnhau bywyd a sefyllfaoedd allanol.

10. **Gweddi**
Dyw deall gweddi fel holi bod dwyfol i ymyrryd yn hanes dynoliaeth yn fawr mwy nag ymdrech chwerthinllyd i droi'r dwyfol yn llawforwyn i'r dynol. Mae'r rhan fwyaf o'n diffiniadau hanesyddol ni o weddi felly'n ddibynnol ar ddealltwriaeth o Dduw sydd wedi marw.

11. **Bywyd ar ôl marwolaeth**
Mae'n rhaid gwahanu'r gobaith o fywyd ar ôl marwolaeth unwaith ac am byth oddi wrth yr awydd i reoli ymddygiad. Bellach does dim modd dirnad y syniadau traddodiadol o nefoedd ac uffern fel llefydd o gosb a gwobr. Mae'n rhaid i Gristnogaeth felly gefnu ar ei ddibyniaeth ar euogrwydd fel rhywbeth i ysgogi ymddygiad.

12. **Barn a rhagfarn**
Nid cyfrifoldeb dynoliaeth yw barnu. Mae rhagfarnu yn erbyn unrhyw fod dynol ar sail gwirionedd sylfaenol bob amser yn ddieflig ac nid yw byth yn cynnal y nod Cristnogol o roi bywyd yn ei gyflawnrwydd i bawb. Dylid mynd ati'n egnïol i ddinoethi'n gyhoeddus unrhyw strwythur mewn cymdeithas fydol neu mewn sefydliad eglwysig sy'n tanseilio dynolrwydd unrhyw blentyn i Dduw ar sail hil, rhyw neu rywedd. Ddylai fod dim rheswm yn eglwys y dyfodol hyd yn oed i faddau arferion rhagfarnllyd. Ddylai 'traddodiad sanctaidd' fyth eto gynnig cysgod na chyfiawnhad i ddrygioni rhagfarnllyd."

A dyna nhw yn eu symylrwydd dadleuol. Mae Spong yn cydnabod bod dadadeiladu'n llawer haws nag adeiladu. Ond dyna'i nod. A hynny, mae'n debyg ar sail ei fantra cyson:

'Rwy'n gweld Duw fel ffynhonnell bywyd sy'n ehangu fy ngallu i fyw, i fyw i'r eithaf. Rwy'n gweld Duw fel Ffynhonnell cariad sy'n fy rhyddhau i garu y tu hwnt i unrhyw rwystr, i garu'n afrad. Rwy'n gweld Duw fel Sylfaen Bod sy'n rhoi'r dewrder i mi i fod y cyfan y galla i fod. Trwy fyw i'r eithaf, rwy'n gwneud y Duw sy'n fywyd yn weladwy. Trwy garu'n afrad, rwy'n gwneud y Duw sy'n gariad yn weladwy. Trwy fod y cyfan y galla i fod, rwy'n gwneud y Duw sy'n Sylfaen Bod yn weladwy.'

Cawn weld sut y bydd o'n mynd ati i gyfiawnhau ac adeiladu ar y gosodiadau hyn.

Gweler: www.johnshelby**spong**.com

CYNHADLEDD FLYNYDDOL CRISTNOGAETH 21
Canolfan St Paul's, Aberystwyth
Mehefin 11eg
10am – 4pm

TYFU- NEWID
Ysgogwyr:
Dylan Iorwerth, Owain Llŷr Evans, Rhian Linecar, Enid Morgan

10.00 Croesawu, cofrestru, coffi
10.30 Defosiwn
10.45 Sesiwn 1
11.30 Sesiwn 2
12.15 Sesiwn 3
1:00 Cinio
1.45 Gyda'n Gilydd dan lywyddiaeth John Roberts
Penawdau i waith y dyfodol
2.30 CYFARFOD BLYNYDDOL
3.15 Myfyrdod a Mawl, Te a Ffarwelio

COST: £20 gan gynnwys lluniaeth.

Mae angen cofrestru cyn dod : **Rhagor o fanylion YMA neu ewch i**
http://cristnogaeth21.cymru/y-gynhadledd-flynyddol/

Hunaniaeth Ewropeaidd?

Ddiwedd Ebrill cynhaliodd Cyngor Eglwysi'r Byd Ymgynghoriad yn Genefa ar y thema 'Hunaniaeth Ewropeaidd. Wrth i *Agora* Mai ymddangos nid oedd adroddiadau o'r Ymgynghoriad wedi eu cyhoeddi, ond fe fyddant yn ymddangos yn ystod mis Mai mewn pryd i hybu trafodaeth yn yr eglwysi cyn y Refferendwm ar Fehefin 23ain. Wrth gyhoeddi'r Ymgynghoriad dywedodd Olav Fykse, Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyngor, ei fod yn gweld y digwyddiad fel rhan o raglen byd-eang y Cyngor, 'Pererinod o gyfiawnder a heddwch', sydd, meddai, 'yn annog parodrwydd i symud ymlaen a bod yn agored'.

Soniodd am Jim Wallis yn America yn cyfeirio at hilyddiaeth fel 'pechod gwreiddiol America' a gofynnodd, 'Beth yw pechod gwreiddiol Ewrop ?' Erbyn hyn nid yw'r eglwys yn eglwys os nad yw'n eglwys fyd-eang, ac er mwyn iddi fod yn fyd-eang mae'n rhaid iddi fod yn lleol-genedlaethol ac yn gyfandirol hefyd. Beth yw bod yn eglwys Ewropeaidd? Nid yw'n gwestiwn a glywir yn cael ei ofyn yn aml.

Yn yr un gynhadledd i'r wasg soniodd Gaelle Courtens, newyddiadurwr sydd yn gohebu i Eglwysi Protestannaidd Ewrop, fod Ewrop nid yn unig yn mynd drwy argyfwng gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a moesol, ond hefyd yn wynebu'r llif mwyaf o ffoaduriaid a phobloedd ers yr Ail Ryfel Byd – ac y mae'r cyfan yn herio hygrededd ein gwerthoedd a'n gweledigaeth. Awgrymodd Fykse, i wlad fechan fel Prydain, a'r cenhedloedd bychain o'i mewn, fod y refferendwm yn golygu mwy nag 'i mewn' neu 'allan', a beth sydd orau i ni.

Dechrau'r Ymgynghoriad yn Genefa

Mae'n golygu meithrin y weledigaeth o amrywiaeth ac undod byd ac mae cyfraniad eglwysi Ewrop i'r weledigaeth honno yn allweddol, ond mae angen ei chlywed yn llawer mwy clir.

Ni ellir ei chynnal lle bo cystadleuaeth, heb sôn am ragfarnau a gwrthdaro crefyddol. Mae'n welediaeth sy'n cael ei meithrin mewn gwyleidd-dra, cydweithio ac addoliad. Tristwch y dystiolaeth Gristnogol yn Ewrop yw bod y wledigaeth wedi pylu. Ond yng nghanol pob trafod a dadlau a gwrthdaro y mae yno, fel llef ddistaw fain.

Gwahoddiad i gyfrannu

Does dim angen aros am wahoddiad i gyfrannu i *Agora*!

Os ydych chi eisiau ymateb yn sydyn i rywbeth, anfonwch air at y Bwrdd Clebran ar y wefan (www.cristnogaeth21.cymru) a pharhau'r drafodaeth yn y fan honno. Os oes rhywbeth yr hoffech chi fanylu arno, neu yr ydych yn awyddus i ddechrau trafodaeth yn ei gylch, neu os buoch yn darllen llyfr difyr, neu'n pori mewn gwefan ddiddorol, fywiog, anfonwch air atom. Mae'r drws ar agor, dewch i mewn. cristnogaeth21@gmail.com

Ble bynnag y mae cariad, yno y mae Duw …

Rocet Arwel Jones

Lleisiau'n trampio i mewn i'r tawelwch
Yn chwalu cadeiriau rhydd
Mewn gofod gwyn
A fu'n gorau uniongred.

Sgrin
Yn hoelio
Sylw
Ac arni lwybr o nodau
Fel cerrig
I gamu
Dros afon.

Taro nodyn,
Taro troed
Ar y garreg gyntaf
Yn betrus,
Sigledig,
I'r nesaf,
Cyn codi pen a chanu.
Pawb â'i lais a'i gân,
Yn gras, yn swil, yn betrus
Yn mentro'r nodau mân.
Nes cydio yn ei gilydd
Y naill i'r llall yn dyst,
A phedwar llais yn enfys
Mor felys ar y glust,
Yn plethu yn gynghanedd
Gyntefig, lonydd, ddofn,
Yn llifo gyda'i gilydd
Dros greigiau llithrig, ofn ...

Nes cyrraedd rhyw fan tenau ...
Yn lluwch o dawelwch ...
Yn ysgafn ...
Yn drwm ...
Yn dawel ...
Dawel ...
Dawel ...
Nes daeth sŵn
A geiriau'r byd
O bell
A'u sodlau'n trampio trwy'r tawelwch,
Yn rhygnu cadair flêr ar lawr
A gollwng y gynulleidfa'n
Rhydd
Drachefn.

Darlith Morlan- Pantyfedwen

'Ydi Cristnogaeth yn Newyddion Da i'r tlawd?' oedd y cwestiwn a osodwyd gan Loretta Minghella, Cyfarwyddwr Cymorth Cristnogol, wrth draddodi darlith flynyddol Morlan-Pantyfedwen yn Aberystwyth, nos Lun, 25 Ebrill. Bu'n gweithio ym myd yr arian mawr. (Hi oedd yn gyfrifol am arwain y corff fu'n darparu iawndal i bobl a gollodd arian yn sgil dymchwel y banciau yn 2008.) Dywedodd ei bod yn disgrifio'i hun fel un a syrthiodd o Eglwys Rufain, yn amheuwr am gyfnod ac yn briod ag anffyddiwr, ond sydd bellach yn addoli mewn eglwys Anglicanaidd yn Llundain.

Loretta Minghella

Roedd hi'n ddarlith gynhwysfawr, yn gweu ynghyd ystadegau, egwyddorion a straeon dwys, personol mewn ffordd hynod effeithiol. Yn y cefndir yr oedd yr argyfwng ffoaduriaid enbyd yn Ewrop ar hyn o bryd a'r cwestiynau'n hofran uwch ein pennau: 'Pam nad ydi tlodi wedi ei ddileu? Pam y mae 1% o boblogaeth y byd yn meddu ar 40% o gyfoeth y byd?' Darfu'r gobaith y byddai twf economaidd yn golygu bod y cyfoeth yn diferu ar y tlodion.

O ran egwyddor, y mae'r sylfaen Gristnogol ein bod i gyd wedi ein gwneud ar ddelw Duw ac nad yw un person yn bwysicach nag un arall, bod perthynas deg rhwng pobl a chymunedau yn allweddol, nad ydi Duw yn derbyn wyneb.

O ran ystadegau: bod 20,000 o eglwysi yn ymuno mewn gweithgaredd codi arian yn wythnos Cymorth Cristnogol; a bod 300 miliwn o bobl yn yr India'n unig yn byw ar lai nag $1.9 y dydd (y ffon fesur bresennol sy'n dynodi tlodi affwysol). Mae trefn *caste* yn gyfystyr â thlodi, a *dalits* yn India yn cael eu gorfodi i wneud y gwaith butraf; gwragedd yw 80% o'r rhai sy'n glanhau tai bach y cyfoethog (yr enw ar y gwaith yw *SKA*), a chael y nesaf peth i ddim tâl ond llwyth o waradwydd am wneud. Dywedodd fod Cymorth Cristnogol yn cyd-weithio â bron 200 o fudiadau gwirfoddol i ddwyn pwysau ar lywodraethau gan ddangos cynifer o bobl sy'n eu cefnogi; a bod newid y gorthrwm ar wragedd ledled byd yn allweddol i sicrhau tegwch a chydraddoldeb.

Soniodd am ŵr yn un o *favellas* Sao Paolo yn dangos y môr o fwd a ddymchwelodd y tŷ yr oedd ef ei hun wedi ei godi ac yn wylo ar ei hysgwydd; am y ferch oedd wedi colli popeth dro ar ôl tro mewn llifogydd yn Bangladesh; Ivan, y gŵr ifanc ar ffin Macedonia yn cyfaddef bod ganddo arian parod, ond ddim heddwch, a dim gobaith. Mae gan Gristnogaeth, felly, fodel i'w ddynwared yn Iesu, a dreuliodd cymaint o'i amser gyda phobl yr ymylon.

Bu gwelliannau dros y 70 o flynyddoedd ers sefydlu Cymorth Cristnogol – gwella meddygaeth, gwell darpariaeth dŵr glân, darparu addysg, disgwyl byw yn hwy, ond y mae'n hawdd iawn i waith da gael ei ddinistrio.

Dal ati i weithio dros heddwch a gobaith fydd yn sicrhau bod Cristnogaeth yn dal i fod yn Newyddion Da i'r tlawd.